Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales


# Anifeiliaid a Chynefinoedd

## // Gemau a Gweithgareddau



| Creadur | Cysgu yn y gaeaf | Ddim yn cysgu yn y gaeaf |
|---|---|---|
| Draenog | ✔ | |
| Wiwer goch | | ✔ |
| Ystlum | ✔ | |
| Neidr y gwair | ✔ | |
| Pathew | ✔ | |
| Mochyn daear | | ✔ |
| Wiwer lwyd | | ✔ |
| Gwenyn | ✔ | |
| Madfall | ✔ | |
| Twrch daear | ✔ | |
| Gwiber | ✔ | |
| Pili pala mantell goch | | ✔ |
| Buwch goch gota | ✔ | |
| Llwynog | | ✔ |
| Broga | ✔ | |
| Dyfrgi | | ✔ |
| Pili pala paen | ✔ | |
| Neidr ddefaid | ✔ | |

# GÊM Y GAEAFGYSGWYR



### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn astudio sut mae rhai anifeiliaid gwaed cynnes yn defnyddio gaeafgysgu fel tacteg ar gyfer goroesi.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Poteli plastig bach neu debyg

Siapiau bychain sy'n sticio neu peniau

DEWISOL: lliw bwyd coch

DEWISOL: cwis gaeafgysgu ai beidio (defnyddiwch y tabl gyferbyn)

### Beth i'w wneud...

1. Dechrau trwy ofyn i'r dysgwyr tynnu llun o wyneb llygoden ar eu potel blastig.
2. Llenwi'r poteli gyda dŵr poeth ac ychwanegu ychydig ddiferion o liw bwyd coch. Gwneud yn siŵr bod y caeadau wedi eu cau'n dynn.
3. Mae angen i'r 'llygod' gadw'n gynnes dros y gaeaf, felly gofynnwch i'r dysgwyr ddod o hyd i le addas tu allan i'w llygoden ar gyfer y gaeafgwsg.  Gallai hyn fod o dan bentwr o ddail, o dan berth neu tu mewn i foncyff coeden. Rhaid sicrhau bod pob 'llygoden' yn gynnes a chlyd! Nawr gadewch yr ardal am gyfnod penodol, o leiaf awr.
4. Byddai nawr yn amser da i ddarllen stori am anifail sy'n mynd i gysgu yn y gaeaf neu ddod o hyd i luniau o anifeiliaid sy'n cuddio yn yr ardal er mwyn cynnal cwis sydyn ar ba anifeiliaid sy'n cysgu, pa rai sy'n teithio i wlad arall a pha rai sy'n aros yn effro yn ystod y gaeaf.
5. Ydy'r 'llygod' wedi goroesi'r gaeaf? Beth sydd wedi digwydd i dymheredd y dŵr? Ydy'r dŵr yn gynnes neu ydy e wedi oeri? Beth sydd gan lygoden nad sydd gan botel? Ydych chi'n meddwl bod anifeiliaid wir yn dod i'r ardal hon ar gyfer gaeafgysgu?